YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 5] MAI, 1924. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.

ODDIAR Y TWR.

MEDDWL DROSOM EIN HUNAIN.

CYFNODAU YN HANES PAUL.

ARHOLIAD YR YSGOLION SUL, 1924.

PRIODASAU.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac yn rhagor yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Llyfr Newydd allan o'r Wasg.

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH"

— GAN —

Alfred Hall, M.A.,

CYFIEITHIWYD GAN

T. Oswald Williams, B.A.

110 tudalen. Pris 3c.; trwy'r post 4½c. 13 am bris 12.

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

—AIL GASGLIAD O—

EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding*, 3s. 6c.

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 5.

AR ADEN FFYDD.

DAETH YR HAUL.

Daeth yr haul a dieithr hud
Wybren hael ddibrin olud ;
Wyneb eirian y bore
Sy'n dwym o gusan y de,
Trwy y cangau tyr cyngan
Melodi'r mil adar mân.
Eu gwledd ar glawdd hir y glyn,
Oer gynnau, fwynha'r gwenyn.
Yn awr gwau hos mau'r gôg
Mae dwylaw'r cwmwd heulog.
Ei ol a wna haul y nen
Trwy dalaith fel troed Olwen.
Llonnaf fan yw'r llain a fu
Ddarn o wylltedd o'r neilltu.
Ysgwyd o'u cwsg heidiau cêl
Gan rywiog win yr awel.
Gwanwyn ei wlith plygeiniol
Irlwys ddyd ar las y ddol.
Tirion y modd, try'n y man
Gweryd yn aur ac arian.
Miliwn o sêr melyn sydd
Ar gynnen ym mro'r gweunydd.
Drain henoed a dry'n wynion,
A chreuddyn llwyd chwardd yn llon.
Heula gwyrdd fanadl eu gwallt
Aur felyn ar y foelallt.
Asur li' ddengys i'r lan
Dynerwch ei don arian.
O deg afiaith dygyfor
Daear mwy ar dir a môr.

. . . . . .

Eto pwy eill ateb hyn :
O ble daw y blodeuyn ?

SARNICOL.

ODDIAR Y TWR.

EDRYDD Ioan ddigwyddiad ym mywyd Iesu ni all lai nag apelio'n gryf at gydymdeimlad pob dyn a'i derllyn yn yr ysbryd iawn. Dyma'r manylion: llyn, i'r hon, fel y tybid, y perthynai rhinwedd iachaol; torf o fobl o bob cyflwr—cleifion, cloffion, deillion, gwywedigion—yn eistedd o amgylch y llyn, yn disgwyl am gynhyrfiad y dwfr; pob un yn awyddus i fod y cyntaf i gael ei daflu i'r dwfr pan y'i cynhyrfid, oblegid y credent yr iacheid y cyntaf a deflid i'r dwfr ar ol y cynhyrfiad. Y mae'n bosibl—yn debygol, hyd yn oed—y gwellheid neu y llinierid dioddefaint—rhai o honynt dan effaith cynhyrfiad y foment; onite, ni chedwid yn fyw y gred yn rhinwedd y dwfr.

* * *

Nid rhywbeth eithriadol yw hyn; yn hytrach, y mae'n beth cyffredin iawn—y ffydd hon yn yr hyn a elwir yn oruwchnaturiol. Dyna'r tyrfaoedd o bob rhan o'r byd yn tyrru i dref Lourdes yn Ffrainc—pobl ymhob math ar gyflwr, fel pobl llyn Bethesta. Dywedir fod miloedd lawer yn tyrru i'r lle hwn bob blwyddyn, i gael eu trochi yn nyfroedd y ffynnon. Ychydig flynyddoedd yn ol bu ffynnon Wenffrewi yn Nhreffynnon yn dra phoblogaidd am yr un rheswm. Y mae poblogrwydd yr olaf, bellach, wedi diflannu—ymron yn llwyr.

* * *

Ni chredaf yn y gwyrthiol—o leiaf, yn yr ystyr y deellir y gair "gwyrthiol" yn gyffredin. Y mae'r bydysawd i gyd, mae'n wir, yn ystyr iawn y gair, yn wyrth—yn rhyfeddod; ac y mae'r gwyrthiol—y rhyfeddol—yn ein cylchynu ymhob cyfeiriad. Y mae pob gwrthrych yn y bydysawd yn wyrth—yn rhyfeddod. Bob tro y sylwaf ar ryw wrthddrych naturiol—y blodeuyn bach, er enghraifft—teimlaf duedd i lefain allan—"O wyrth! O ryfeddod!" Pwy fedr feddwl am y corff dynol heb i ryw deimlad o'r fath hyn gael ei gyffroi yn ei fynwes?

* * *

Nid dyna'r ystyr roddir i'r gair "gwyrth," fodd bynnag, yn gyffredin; eithr gweithred a gyflawnir yn groes i, neu trwy dorri un neu arall o ddeddfau natur. Rhywbeth tebig i hyn ddisgwylid gan y bobl a eisteddai o gylch llyn Bethesta, neu a dyr i dref Lourdes yn ein dyddiau ni. Ac ni ddylid eu diystyrru oblegid hyn—y dynion ydynt, erioed, wedi rhoi eu hymddiriedaeth mewn cyfryngau o'r fath hyn i ddwyn iddynt iachad o'u clefydau. Pwy a ŵyr nad yw llawer

o honynt, dan effaith cynhyrfiad y foment, yn cael gwellhad. Yn ddiamheuol, y mae yng nghreadigaeth y Duw mawr nerthoedd nad yw dyn, eto, yn eu deall ond yn amherffaith iawn.

* * *

Paham y cyfeiriais at lyn Bethesta? Am y gwelaf yn yr hanesyn ddameg a ddisgrifia inni, yn gywir rhyfeddol, wir gyflwr dyn a chymdeithas heddyw. Beth yw'r cyflwr hwn—fel y mae, ac nid fel y dylai fod; fel y mae, ac nid fel y bydd rywbryd eto? Fe edrychwn ymlaen at adeg pan fydd dyn a chymdeithas mewn cyflwr o iechyd perffaith yn gorfforol a moesol. Y mae'n gobaith hwn ynom—un o'n bendithion pennaf; oblegid hebddo fe fyddai pob math ar ymdrech yn amhosibl. Ond nid yw'r adeg hon wedi dod—eto; nac ydyw, o bell ffordd. Amherffaith yw dyn a chymdeithas; y mae cymdeithas yn amherffaith am fod dyn yn amherffaith. Nid yw cymdeithas mor bwdr fel ag i gyfiawnhau'r gosodiad na pherthyn iddi un man glân. Fe berthyn iddi fannau glân. Eithr y mae llawer iawn gormod o bydredd moesol pydredd moesol a gyfyd, i fesur helaeth, o'r amgylchoedd y gorfodir dynion a benywod a phlant i fyw ynddynt.

* * *

Beth wneir i wella a chodi cymdeithas i'r cyflwr hwn? Fe wneir cryn dipyn; eithr ni wneir y ganfed ran o'r hyn sydd eisiau ei wneud. Ac nid yw cryn lawer o'r hyn a wneir amgen na meddyginiaeth grachfeddygol - tebig i'r feddyginiaeth y gosodid cymaint o ymddiriedaeth ynddi gan fobl llyn Bethesta, a phobl ffynhonnau Lourdes a Gwenffrewi. Fe besir deddfau Seneddol, er enghraifft; ac fe esyd llawer o fobl eu gobaith arnynt. Ac yn uniongyrchol ar ol y'u pesir, ni feddylia neb ddim neu ond ychydig am danynt. Ymhellach, ychydig iawn fedr deddfau Seneddol wneud i wella doluriau dyn a chymdeithas; fe allant liniaru, a lleihau, i ryw bellter; ond ni allant fynd tan wraidd y drwg, a'i ddileu.

* * *

Yn ystod y blynyddoedd diweddaf, y mae tòn o fateroliaeth wedi ymdaenu dros yr holl fyd dynol, gan beri difaterwch cymharol gyffredinol parthed agweddau uwch bywyd. Sefyllfa llawn o berigl yw hon. Y mae rhai yn gweld y perigl; ac oblegid gweld o honynt y perigl fe lefant allan am gynhyrfiad y dyfroedd, am ddeffroad, am ddiwygiad. Y mae angen cyffroi'r dyfroedd; y mae angen deffroad; y mae angen diwygiad. Ni fu erioed fwy o'u hangen. Ond nid yw'r deffroad a'r diwygiad y meddylir am dano yn mynd agos ddigon pell. Ni chyffyrddant ond ag wyneb y dyfroedd; nid ânt i lawr i'r dyfnder at wreiddyn y drwg. Fe ellir cynhyrfu wyneb y dyfroedd, ac i'r dyfnder aros yn ddigynhwrf—yn llawn o elfennau afiach.

Beth berodd imi ysgrifennu'r nodiadau uchod? Tua chanol y mis diweddaf bu cynhadledd fawr ym Mirmingham, a wneid i fyny o gynrychiolwyr o bob enwad Cristionogol, oddigerth y Pabyddion; eithr er na chymerodd yr Eglwys Rufeinig un rhan yn y gynhadledd, ymddengys i amryw o'i dynion blaenaf roddi cynhorthwy gwerthfawr ynglyn â'r paratoadau a'r trefniadau blaenorol. Gyda llaw, ni ddarfu imi sylwi fod un gwahoddiad wedi ei estyn i un gymdeithas nac eglwys Undodaidd. Dichon fy mod yn camsynied; os felly, da; os y gwrthwyneb sy'n iawn, fe'm tueddir i ofyn—paham? Yn sicr, nid oedd dim yn y materion yr ymdrinid â hwynt nad allai Undodwr fod yn bresennol a chymryd rhan yn yr ymdrafodaethau heb sangu o hono ar droed diwinyddol neb. Pa hyd y pery'r anwybyddu a'r esgymuno di-derfyn a nodwedda ymddygiadau enwadau iawnffyddol tuag at bopeth Undodaidd?

* * *

Testun llawenydd, fodd bynnag, ydyw fod cynhadledd o'r fath hyn yn bosibl—cynhadledd o ryw bymtheg cant i ddwy fil o gynrychiolwyr o enwadau a chymdeithasau ac eglwysi Cristionogol o bob rhan o'r wlad—a'r byd. Y mae'n ddechreu godidog iawn. Y perigl yw, ar ol i'r brwdfrydedd a enynwyd gan y cyfarfodydd gael ychydig amser i oeri, i'r cwbl ddiflannu fel tarth. Ein gweddi yw ar i'r mudiad ennill nerth, ac i'r ymgais i droi'r "ffydd" Gristionogol "yn ffaith" ym mywyd cymdeithas i gael ei goroni â llwyddiant.

* * *

Cwestiynau mawr ein dydd ni yw—beth yw'r berthynas iawn rhwng (1) gwledydd, (2) cyfalaf a llafur, (3) meistr a gweithiwr, (4) gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth, (5) y gwrryw a'r fenyw. Hefyd, fe gyfyd problemau pwysig ynglyn â'r Cartref, Addysg, Oriau Hamdden, y dull o drin drwg-weithredwyr, ac yn y blaen. Anwybyddu'r cwestiynau hyn ymron yn llwyr wnawd gan eglwysi Cristionogol hyd yn ddiweddar. Colled annhraethol berwyd gan yr esgeulustod hwn. Yr ydym yn byw, ni a obeithiwn, yn adeg gwawr dydd gwell. Fe ddechreua'r eglwysi Cristionogol sylweddoli eu cyfrifoldeb a'u dyletswydd mewn perthynas i'r cwestiynau a enwyd ac ereill a ellid eu henwi.

* * *

Fe ddechreu'r eglwysi Cristionogol sylweddoli fod ffordd Gristionogol i benderfynu pob un o gwestiynau cymdeithasol ein dydd; mai'r ffordd Gristionogol yw'r unig ffordd; ac na ddaw'r byd i'w le hyd y rhoddir prawf i'r ffordd Gristionogol. Yng ngeiriau Mr. Stanley

Baldwin, "credaf mai yn ysbryd addysgiadau Cristionogaeth y ceir atebion i'r problemau anodd a wynebant ein cenhedlaeth."

* * *

Rhyw gynlluniau o gyffelyb natur i'r cynllun y rhoddai'r bobl ar lan llyn Bethesta eu hymddiriedaeth ynddo yw'r cynlluniau i ddwyn y byd i'w le fu mewn bri hyd yma: cynlluniau na wnant ragor na chyffwrdd yn ysgafn ag wyneb y drwg. Fe erys cynllun Iesu fel yr unig gynllun fedr fynd heibio i'r arwynebol at wreiddyn y drwg. Ac ar Gristionogion y gorffwys y cyfrifoldeb o osod y cynllun mewn gweithrediad.

MEDDWL DROSOM EIN HUNAIN.

Un o'r breintiau fwynhawn fel dinasyddion Prydain Fawr ydyw'r un o ryddid i feddwl drosom ein hunain mewn materion crefyddol a chymdeithasol. Enillwyd y fraint werthfawr hon i ni gan ein cyndeidiau trwy waed ac aberth. Hanes rhamantus ac ardderchog ydyw hanes Rhyddid yn ein gwlad; ond wedi'r ymdrech a'r brwydro yr wyf yn cael fy nhueddu i gredu nad ydym mor rhydd ag y tybiwn ein bod. Un o'r pethau torcalonus yn Hanes Rhyddid yw'r ffaith nad yw pobl yn ei brisio wedi ei gael. Nid cynt y deuwn allan o un caethiwed nag yr awn i fewn i un arall. Ymddengys mai'r rhyddid a hoffwn yw'r un i ddewis ein caethiwed. Brwydrodd ein Tadau Protestanaidd yn galed i ddyfod yn rhydd o grafangau Eglwys Anffaeledig, ond yn unig i osod eu hunain mewn caethiwed eilwaith i Lyfr Anffaeledig. Yr ydym ninnau wedi ymryddhau o gaethiwed llawer o ormesion ac ofergoelion hen oesau, ond ar yr un pryd yr ydym wedi methu osgoi gefynnau ofergoel ac arfer yr ugeinfed ganrif. Y mae llawer o sôn ein bod yn byw mewn "oes oleu," ond ai nid yw yn bosibl ein bod dipyn yn fostfawr ac yn hunain-gyfiawn? Bydd yn "foddion gras" i ni gofio yn awr ac eilwaith mai yn yr "oes oleu hon" y digwyddodd un o'r rhyfeloedd mwyaf gwaedlyd yn hanes dynoliaeth ar y ddaear. Os ydyw'r person a'r yswain wedi diflannu, y mae'r *Trotskys* a'r *Mussolinis* yn fyw iawn yn ein mysg. Bu'r Eidal deg unwaith dan draed y Pab, ond faint gwaeth oedd hi y pryd hwnnw na dan *Mussolini* heddyw? Pan gofiwn am *Joseph Mazzini* yr ydym yn cael ein difrifoli i ofyn pa Ragluniaeth gododd y blaidd hwn i fod yn olynydd iddo yng nghynghorau'r Eidal? Ond dyna hi, o gaethiwed i gaethiwed yw hi, ac nid o ryddid i ryddid.

Rhaid cofio nad yw rhyddid yn ddiben ynddo'i hun. Amod rhywbeth uwch yw rhyddid; ac un o'r pethau ddylem ofyn i ni ein hunain yw, pa beth yr ydym yn wneyd a'n rhyddid drud, pa sut yr ydym yn ei defnyddio, i ba bwrpas? A ydym yn ei ddefnyddio o gwbl, neu ei esgeuluso fel llawer o freintiau ereill enillwyd i ni trwy hunan-aberth rhywrai?

Ymddengys i mi fod yna, o leiaf ddau beth sydd yn amhoblogaidd iawn heddyw, sef defnyddio'r pen,

a defnyddio'r fraich neu'r llaw; meddwl drosom ein hunain; a gweithio drosom ein hunain. Peth torcalonus i lawer ohonom yw gweled cannoedd o'n cyd-ddynion yn cerdded y strydoedd heb waith ac heb obaith—rhai ohonynt yn slipio allan o fodolaeth trwy ddrysau gwahardd-edig yn hytrach na byw a dioddef mewn sefyllfa o'r fath hyn. Canrif oleu! Canrif dywell iawn yw i lawer, canrif farbaraidd, canrif ddiegwyddor, canrif a mwy o gymylau am dani nag o oleuni.

Ar y llaw arall, er fod yna lawer o ddioddefaint yn ein byd, y mae yna ddynion i'w cael tebyg i'r dyn hwnnw y soniai *Punch* am dano. Aeth i'r offis at y meistr mewn atebiad i *advertisement* am *foreman*. "Ydych chwi'n meddwl y gellwch wneyd y gwaith?" oedd gofyniad y meistr. "Gwaith!" ebai'r dyn, "gwaith! Yr oeddwn i wedi meddwl mai eisiau *foreman* oedd arnoch." Y mae llawer, fel y mae gwaetha'r modd, yn perthyn i'r frawdoliaeth yna.

Pa fodd bynnag, gyda golwg ar amhoblogrwydd y gwaith o feddwl drosom ein hunain, nid oes eisiau llawer o ymresymiad. Y mae'r peth mor amlwg a'r dydd. Nid yw'r meddyliwr gyda ni, mwy na chyda'r Iddewon gynt, yn cael derbyniad gor-wresog. Medr pobl faddeu i'r dyn gymer fywyd, ond pechod anfaddeuol yw ceisio deffro eu meddyliau i feddwl. Sylwch ar y dorf. Y rhan fynychaf gwelir y cannoedd yn hongian with wefusau'r gwr sy'n anllwys allan fel dwfr rywbeth i suo eu meddyliau i gysgu; tra y mae'r gwr a'r *stimulants* yn gorfod boddloni ar ddau neu dri o wrandawyr. Y mae llawer y dyddiau hyn yn osgoi'r meddyliwr—gwr scaprwyth ydyw—ac felly cawn fod y "crefyddau rhwydd" yn dra poblogaidd. Fel y ceir dillad *ready-made*, felly hefyd y ceir crefyddau *ready-made*; a goreu i gyd po leiaf o feddwl wneir yn eu cylch. Na roer hwynt yn y pair meddyliol, rhag iddynt golli eu lliw; oblegid nid ydynt wedi eu gwneuthur i ddal dwfr.

Y mae rhai o'r crefyddau newydd yma yn myn'd mor bell a chondemnio meddwl ar faterion sydd fel rheol yn creu dyryswch, megis poen a phechod, a'u cyffelyb, trwy yr haeriad noeth nad oes dim yn y cyfeiriad hwn i feddwl am dano; oblegid nid oes y fath beth a phoen a phechod yn bod tuallan i feddyliau gwyrgam y sawl a'u teimla.

Beth bynag sy'n cyfiawnhau diogi meddwl neu ddiogi corff, bydd hyn bob amser yn boblogaidd. Y mae hyn yn duedd naturiol yn y natur ddynol, a dim ond trwy ymladd yn ei herbyn y medrwn ddyfod i feddiant o fywyd uwch yn feddyliol neu yn ysprydol.

Dyna paham y dylem yn awr ac yn y man wneuthur *spring cleaning*, nid yn unig yn y ty a'i ystafelloedd, ond yn y Meddwl, preswylydd y ty. Peth anhawdd iawn yw i ddyn feddwl dros ei hun y dyddiau hyn—tebyg ei bod yn fwy anhawdd nag erioed, er ein bod yn byw mewn gwlad rydd. Yn un peth, Oes y torfeydd ydyw'r oes hon. Yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl a chredu gyda'r dorf, fel yr ydym yn datblygu i fod yn rhyw fath o greaduriaid y dorf, ac fel yr ä'r dorf, o chwith neu o dde, yr awn ninnau. Ond cofier nad yw'r dorf, y *crowd*, yn *meddwl* o gwbl. Creadur y teimlad a'r awgrym ydyw. O dan amodau neilltuol peth hawdd yw gweithio ar deimladau'r dorf, ac felly cyflawna dyn beth mewn torf na freuddwydiai am gyflawni yn ei gartref. Ar adeg Etholiad ceir gweled y dinesydd tawel a di-dramgwydd yn aml yn myn'd yn *hooligan* ymron. Dyna paham y ceir cymaint o bethau dychrynllyd yn cymeryd lle mewn Chwyldroadau—greddf yr anifail yn diorseddu Rheswm mewn dyn a dynion.

Pa fodd bynag, ymddengys i mi mai peth anhawdd iawn mewn oes fel hon—oes y torfeydd, y papurau, y pamffledi, yr hysbysiadau, y llyfrau a'r Beiblau o bob math—peth anhawdd iawn yw cynyrchu unryw fath o wreiddioldeb mewn meddwl a

gweithred. Darllener rhai o'r llyfrau ddont allan o'r wasg heddyw, a cheir mai rhyw *echoes*, rhyw efelychiadau ydynt. Ceir y "bardd bach" ar ei oreu yn ceisio efelychu'r "bardd mawr," ac yn esgor ar ebychiadau annheilwng o bapur ac inc. Gwelir y "pregethwr bach" yntau, yn ceisio dynwared rhyw bregethwr mwy enwog, a llwydda mor belled ag y mae dynwaredu ei wendidau, ei ystumiau, a'i besychiadau yn myn'd. Creir rhyw ffasiynau yn y pethau hyn yr un fath ag y gwneir mewn gwisgoedd. Y mae gwreiddioldeb yn beth mor brin ag aur. Fel y sofren y mae wedi llwyr-ddiflannu o'r wlad, ac nid oes gobaith am gael y *gold-basis* yn ol. Bu amser pan yr oedd pob pentref a threflan yng Nghymru yn medru ymffrostio yn eu "cymeriadau," ond heddyw mae'r trigolion fel rhês o *postage stamps*, chwedl Wil Bryan, i gyd yr un fath, pob aderyn yn canu'r un gân, a phob coeden yn dwyn yr un ffurf. Pe bae Natur felly, fe fuasem yn barod ddigon i amheu doethineb y Creawdwr, ond nid ydym mor barod i gondemnio gwaith unffurfiol dyn yn ei fyd ei hun. Yr ydym yn medru mwynhau amrywiaeth Natur, ac yn achwyn os na cheir ef; ond yr ydym yn barod bob tro i wrthwynebu unryw amrywiaeth mewn meddwl a thalent yn y byd dynol. Ein hamcan mewn addysg a gwaith yw, nid creu meddylwyr a chreawdwyr, ond gosod i fyny beiriannau a throi allan *calico* rhad o'r un patrwn.

(*I'w barhau*).

Northampton.

D. Cellan Evans.

CYFNODAU YN HANES PAUL.

Ni a gyfarfyddwn a Phaul am y tro cyntaf fel penboethyn tanllyd ar ferthyrdod Stephan, "a'r tystion a ddodasant eu dillad wrth draed dyn ieuanc a elwid Saul." Ychydig feddyliai ef y pryd hynny ei fod ef ei hunan i gerdded dros yr un llwybr yn gywir ag a agorwyd gan Stephan, oherwydd Stephan yn ymddangosiadol ym mhlith athrawon Cristionogol a welodd ac a ddysgodd gyntaf fod Iddewaeth i farw. Cyhuddid ef o gabledd am ddysgu y dinystrai Iesu y Deml, ac y diddymai ef y defodau Moesenaidd. Ceir ei amddiffyniad yn Actau vii. Pan y llabyddid dyn i farwolaeth, y gyfraith oedd fod y rhai yr euogfarnwyd ef, drwy eu tystiolaeth, i fod i'w ddienyddio. Yr amcan oedd gwneud dynion yn ofalus pan roddent eu tystiolaeth. Safai'r tystion o flaen y troseddwr, ac yn agos iddo, ac i'r amcan o daflu'r cerrig ato'n rhwyddach, tynnent eu dillad uchaf i ffwrdd. Safai Paul yn agos i Stephan, a thaflasant eu dillad iddo ef i'w cadw. Felly, gwelai ef wyneb Stephan yn yr oll o'i orfoledd angylaidd wrth weled Iesu'n dynesu ato gyda breichiau agored a gwên roesawgar. Adlewyrchai y fflam o oleuni nefol yng ngorfoledd wyneb-pryd Stephan. Gwelai Stephan wyneb Crist, a Phaul wyneb Stephan. A'i yr olwg honno gydag ef i b'le bynnag yr a'i yntau,—yr oedd y tangnefedd hwnnw'n rhywbeth tuhwnt i'w ddirnadaeth. Poenai ef yn ei gulni Iddewig, a gyrrai ef drwy adlam naturiol i erledigaeth fwy angherddol nag erioed. Ond yr oedd yr olwg honno wedi ei hargraffu ar ei galon. Ac felly, ar

ol ei ddychwelyd, a dyfod ohonno'n Gristion, trodd oddiamgylch yn llwyr. O fod yn benboethyn ffyrnig, daeth yn rhydd oddiwrth y lythyren a'r ffurf, ac aeth ar ei union i ryddid yr ysbryd. Yr oedd yna nerth ffydd, dewrder, a dealltwriaeth hynod yng nghymeriad Stephan. Nid oes raid tybied fod yr adroddiad o'i araith yn yr Actau yn llythrennol gywir. Yn debygol, nad adroddwyd yr un o'r areithiau, a edrydd Luc, air am air,—dim ond eu swm. Mae'n rhaid yr ymddangosai'n hynod galed i gorff y Cristionogion, gan mwyaf, yn anllythrennog, golli dyn mor ddiwylliedig a Stephan.

Weithiau, pan yr ä'r fath un, dywedwn, "mae'r golled yn anadferadwy—nis gellir hepgor yr un yna. Y fam ieuanc yna, sut y gall ei phlant wneud hebddi? — y tad yna, cynhaliaeth y teulu; y gwladweinydd yna, y rheolwr profedig, yr un dyn o bawb yr ymddiried ac y pwysa pawb arno." Felly'r oedd pan yr aeth Stephan. Ymddangosai fel pe nad oedd yn bosibl i Eglwys Crist ei hepgor. Felly'r oedd, eto'n fwy, pan yr aeth Iesu,—yr un bod yn y byd nad allai y byd wneud hebddo; lle'r hwn nid allai neb ei gymryd. Fe ä'r da a'r doeth, y pur a'r hael, yr athrylithgar ysbrydoledig, ac yna cwyd Duw hwynt i fyny i'r uchelder i edrych i lawr oddifry arnom ni, ac i fod ein hysbrydoliaeth. Ysbrydola eu bywydau mawr hwy, a'u hesiamplau hwy, ni i ymdrech newydd. Mae cof am y fam yn byw yng nghalonnau y plant. Pan yr ymadawodd Iesu, daeth yn nes at ei gyfeillion nag y bu erioed o'r blaen. Golwg ar farwolaeth Stephan, swn ei lais, golwg ar ei wyneb fel wyneb angel, ei floedd o orfoledd, a buddugoliaeth yng nghanol ei ingoedd,—y rhai yma oeddent y grisiau cyntaf yn nhroedigaeth Saul. Nis gallai Paul lai na gofyn iddo ei hunan, "p'run yw gwir was Duw,—y dyn hwn mor wynfydedig pan yn dioddef marwolaeth echrydus, neu y rhai hyn yn rhincian eu dannedd mewn cynddaredd creulon?—efe, yn gweddio am faddeuant iddynt am eu pechod, ac yn cyflwyno ei ysbryd i ofal ei Athraw, neu hwynthwy, yn cau eu clustiau'n erbyn ei weddi nefol, a'i boddi a'u dolefai anwar." Er na thros y digwyddiadau hyn mo Paul, eto diau iddynt fod yn ris arall i barotoi'r ffordd i'w droedigaeth.

Nid yw cymeriad mor nerthol a dwfn a chymeriad Paul yn un i'w gyfnewid yn rhwydd a sydyn o'i amcan sefydlog. Er fod Paul, y Pharisead selog, yn dryblus, amheus a thruenus yn fewnol, äi eto ymlaen ar ei yrfa sefydlog, yn benderfynnol i erlid a rhoddi lawr yr heresi mor ddiamheuol elynol i'r ddiwinyddiaeth Phariseaidd, ac a beryglai sefydliadau difrifol a defodau ofnadwy Iddewaeth. Fel pe drwy sel allanol y gwnelai iawn iddo ei hunan am ei anwadalwch mewnol, efe a winfoddolodd fyned i Damascus, lle'r oedd y sect newydd yn ennill tir, i ddwyn pob Cristion y medrai cael gafael ynddo'n rhwym i Jerusalem. Ond ar ei ffordd yno, cymerodd y digwyddiad hwnnw le a arweiniodd i'w droedigaeth — o'r digwyddiad hwnnw, mae gennym yn yr Actau dri hanes ar wahan—y nawfed, y ddwyfed-ar-hugain, a'r bumed-ar-hugain benodau—ac mae'n amhosibl eu llwyr gysoni.

Y syniad cywir, efallai, yw i Paul weled Crist mewn gwirionedd, ond a'r llygad ysbrydol. Nid drychioliaeth o Grist, ond Crist ei hunan, a ymddangosodd i Paul. Gwelwyd ef ganddo, nid a'r llygad allanol, ond trwy ddatguddiad mewnol. Eglurai hyn paham na welodd y rhai oedd gydag ef yr un dyn, ac yn ol un o'r hanesion, ni chlywodd yr un dyn, hyd yn oed, y llais a lefarodd wrth Paul.

Dengys geiriau Iesu fod Paul yn barod wedi ei argyhoeddi'n fewnol, a'i fod yn gwrthsefyll yr argyhoeddiadau hynny,—"Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i? . . . . caled yw i ti wingo'n erbyn y symbylau." Fel y gwingai ychen yn erbyn symbylau eu gyrwyr, ni wnaent ond eu gyru'n

ddyfnach i'w cnawd. Felly hefyd Paul, pan yn gwrthsefyll llais mewnol ei gydwybod, gwnai y llais hwnnw'n fwy ofnadwy fyth.

Gwelodd Paul rywbeth, a chlywodd Paul rywbeth, na welodd ac na chlywodd ei gymdeithion. Safai wyneb yn wyneb a thynerwch mawreddog ei Waredwr gweddnewidiol; dywedwyd wrtho ei fod ef, yr erlidiwr creulon, wedi ei ddewis i fod yn Apostol; ei fod ef, y penboethyn cul, i fod yn broffwyd y grefydd mwyaf rhyddfrydig; ei fod ef, yr Iddew penboeth, i fyned ymhell i blith y Cenhedloedd, a dioddef dros Iesu, ei Athraw newydd. Yn grynedig, a'i lygaid yn dywyll, a'i enaid yn llawn goleuni newydd, cododd ac aeth i Damascus, ac yno clywodd gan lais Cristionogol y geiriau, "y brawd Saul, cymer dy olwg, a llanwer di a'r Ysbryd Glan."

Yno y daeth yn Gristion; yno'r addysgwyd ef i adnabod Crist—yno'r eisteddai, o ddydd i ddydd, yn ysgolhaig addfwyn yn dysgu newyddion da'r Efengyl newydd.

Y fath benderfyniad dychrynllyd y galwyd ar Paul yn awr i'w wneud—rhoddi i fyny'r oll yn annwyl ganddo, a'r oll y bu ef byw er ei fwyn—uno y sect fechan yr arferai efe ei herlid, ymwrthod a'i ddysgeidiaeth Iddewig, a'r gair da a ennillwyd ganddo trwy drafferth, ei ddylanwad gyda'r Sanhedrim a'r werin bobl, a dechreu dysgu egwyddor gwybodaeth newydd gan un a fu farw fel drwgweithredwr, ac yn lle ei gymdeithion urddasol a galluog, dyfod yn gydymaith pysgotwyr anllythrenog. Ni osodwyd erioed dreial caletach ar ddyn nag a osodwyd ar Paul yn ninas Damascus. Ymddangosai y mwyaf o aberthau, ond mewn gwirionedd y mwyaf o fendithion oedd. Cyflawnwyd ynddo ef y dywediad, "Pwy bynnag a gollo ei einioes o'm hachos i, hwnnw a'i ceidw hi." Ni wyddai Paul y fath ddrws agored i barch, dylanwad, ac awdurdod oedd i' ddod iddo ef drwy y penderfyniad hwn. Nis gallai wybod ei fod yn cyfnewid cylch cul, ac enwogrwydd lleol, Rabbi Iddewig, am gylch eang Apostol crefydd oedd i fod ledled y ddaear. Nis gallai weled y filfed ran o'r hyn a ddaeth iddo. Ymddangosai fel pe'n taflu pob parch a dylanwad o'r tu ol i'w gefn. Ond yr oedd yn fodlon eu colli hwynt oll, os y medrai gyrraedd y tangnefedd mewnol hwnnw, y cafodd fynegiant allanol ohono ar ael Stephan. Er mwyn hyn byddai'n hollol fodlon gwneud pob aberth.

Ym mhell ar ol hyn, pan yn siarad am ei gyrhaeddiadau Iddewig, yr ymwrthododd ef a hwynt. "Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hynny a gyfrifais i'n golled er mwyn Crist. Ie, yn ddiameu gennyf, yr wyf hefyd yn cyfrif popeth yn golled oherwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd; er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom fel yr ennillwyf Grist, ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd."

Cyffrowyd Paul yn uniongyrchol i ddatgan yn gyhoeddus y cyfnewidiad mawr yn ei argyhoeddiadau, a chynhyrfodd hyn yn union yn erbyn elyniaeth marwol y blaid Phariseaidd. I osgoi eu dialedd, aeth ef i Arabia ac arosodd yno dair blynedd,—ni ddywedir wrthym sut y treuliwyd y tair blynedd hynny ganddo, ac eto mae'n rhwydd dyfalu. I feddwl fel meddwl Paul, yr oedd yn gwbl anghenrheidiol cael amser i drefnu, gwneud yn eglur, a dosbarthu ei olygiadau newyddion. Ceisiodd yn ddiau'r holl hysbysrwydd ellid ei gael am fywyd Iesu a'i ddysgeidiaeth,—yr oedd y tair blynedd hynny o bwysigrwydd dirfawr i'r Eglwys Gristionogol.

Oherwydd galluogodd y syniadau a ennillodd Paul ar y pryd hynny ef i ddangos ac egluro'r efengyl yn ei pherthynas ag Iddewaeth a Phaganiaeth, a'u chymhwyso i' ddiwallu anghenion y deall, cystal ag anghenion y galon a'r ysbryd.

Aeth yn nesaf i Jerusalem i ymweled a'r Apostolion, ond cafodd

allan yn fuan na fedrent hwy roddi iddo un goleuni newydd, nag ychwanegu unrhyw beth hanfodol bwysig at ei wybodaeth. Gorfododd y Phariseaid ef yn fuan i adael Jerusalem,—ei gyfeillion blaenorol, ond yn awr ei elynion chwerw. Pan yn gweddio'n y Deml un diwrnod, medd hanes, daeth i'w feddwl i fyned at y Cenhedloedd, a phregethu iddynt hwy. Ar ol ychydig amser aeth i Tarsus, ei gartref blaenorol, a threuliodd rai blynyddoedd yn pregethu'r Efengyl yn y gymydogaeth honno. Yn ystod y cyfnod hwn,—wyth mlynedd ar ol marwolaeth Stephan,—cynyddodd rhif y dychweledigion at Gristionogaeth yn gyflym, am nad oedd erledigaeth.

Tueddai troedigaeth Cornelius, y canwriad Rhufeinig, a'i fedydd gan Petr, i baratoi'r Iddewon i dderbyn dychweledigion Cenhedlig.

Cafodd Barnabas afael ar Paul yn Tarsus, a buont eu dau'n dysgu am flwyddyn yn Antioch. Hwyliasant oddiyno i ynys Cyprus O Cyprus hwyliasant i gyfandir Asia Leiaf, ac aethant drwy ddinasoedd Perga, Antioch yn Asia Leiaf, Iconium, Lystra, a Derbe, gan bregethu'n yr holl leoedd hyn, yn gyntaf i'r Iddewon, ac yna i'r Groegiaid. Cawsant eu cam-drin mewn llawer o'r lleoedd hyn ; yn Lystra addolwyd hwynt ar y cyntaf fel duwiau, ac yna'n y man llabyddiwyd hwynt a cherrig gan y bobl anwadal hyn. Yn mhob lle casglent eu dychweledigion yn eglwysi, a dysgent hwynt i ddewis henuriaid, fel mewn synagogau, ac yna dychwelent i Antioch. Felly y terfynodd y daith genhadol gyntaf.

C.C.

ARHOLIAD YR YSGOLION SUL, 1924.

SAFON I.

ALLTYPLACA.—Dilys Rees, Daniel Verdun Davies, John Lewis Evans, John Howell Davies, David Jones, Nancy Mary Evans.

BRONDEIFI.—Dilys Eirwen Davies, Mary Elizabeth Davies, Rosina Jones.

CAERONNEN.—Ray Davies.

CAPELYBRYN.—Molly Jenkins, Getta Jones, Hannah Davies, Hannah Tegwen Davies, Mary Eiluned Jones.

CAPEL Y CWM.—Margaret Elizabeth Evans, Sallie Evans, Ray Lloyd, Jack Jenkins

CAPEL Y FADFA Mary Hannah Thomas, Bertie Lewis, Jenkin Garfield Brown, Tom Lloyd Thomas.

CAPEL Y GROES.—Vincent Davies, Idwal Jones, Hannah Morgans, Gwinnie Thomas, David Lewis, Hannah Margaretta Lewis.

CILIAU.—Jane Evelyn Davies, Tom Tyssul Davies, Edward John Jones.

CRIBYN.—Lewis Herbert, Aeron Davies, Bronwen Williams, Josua Howells.

LLWYNRHYDOWEN.—Hannah Evans, Cairo Jenkins, Jenkin Jones, John Davies, Sarah Hannah Lewis, William John Lewis.

PANTYDEFAID.—Sarah Mary Thomas, Bet Evans, Sarah Anne Evans, Bronwen Thomas, Evan Daniel Jones.

RHYDYGWIN.—Nellie Lloyd, Bessie Lloyd, Betty Conwil Evans, Iris Myfanwy Evans.

SAFON II. (8 hyd 10 oed).

Dosbarth Cyntaf, gydag Anrhydedd.—Aerona Lewis, Ciliau, *Enillydd y Medal;* Oliver Jones, Llwyn; *Bessie Davies, Ciliau, *Nellie Jones, Ciliau; *Sarah Ann Morgans, Capelybryn, *Betty Williams, Llwyn; *Nancy Davies, Capelybryn, *Gwyneth Williams, Llwyn.

Dosbarth Cyntaf.—*Alfred Brown, Capelyfadfa, *Hilda Jones, Capelybryn, *Tom Jones, Alltyplaca; *Bessie J. Davies, Alltyplaca, *Elizabeth Davies, Alltyplaca, *Bertie Rees, Alltyplaca; *Hetty Evans, Capelyfadfa, *Rees Williams, Cribyn; *Sallie Davies, Cribyn, *Eilir Evans, Capelygroes; *Mary Thomas, Pantydefaid, *Meredith Thomas, Capelygroes; Mary H. Dudley, Llwyn; John Elwyn Evans, Alltyplaca; Bet Evans, Pantydefaid.

Ail Ddosbarth.—Sarah Anne Evans, Pantydefaid; Ajah Evans, Capel y Graig; Evan John Evans, Llwyn; Sarah Mary Thomas, Pantydefaid; *James Davies, Capel y Cwm, *David James Jones, Capel y Cwm, *John Elias Jones, Capel y Cwm; Mally Evans, Llwyn; Owen Lloyd Jones, Capelygroes.

SAFON III. (10 hyd 14 oed).

Dosbarth Cyntaf, gydag Anrhydedd.—Mary Jones, Capelyfadfa, *Enillydd y Medal;* Dinah Davies, Caeronen; *Evan Tom Evans, Capel y Cwm, *Mary Evans, Capelybryn, *Hannah Jenkins, Capelybryn, *Sarah Ann Jones, Capel y Graig.

Dosbarth Cyntaf.—*Jennie Davies, Brondeifi, *Mary Margaretta Jones, Graig, *Nancy Thomas, Graig; *Martha Herbert, Cribyn, *Letitia Mary Jones, Ciliau, *Evan Leonard Pughe, Capelybryn; *David Rees Dudley, Llwyn; *Annie Mary Williams, Caeronen; *Ann Jones, Llwyn, *John Jones, Capelybryn, *John Howell Williams, Cribyn; *Humphrey Davies, Capelygroes, *Daniel Hughes, Cribyn; *Elizabeth Megan Davies, Brondeifi, *Evan Garfield Howells, Cribyn, *Willie Leonard Pughe, Capelybryn; Evan Gwynfor Rees, Capel y Cwm; *Nancy Davies, Capel y Cwm, *Hannah Jones, Capelybryn, *Ieuan Jones, Capelygroes.

Ail Ddosbarth.—*David Evans, Capelybryn, *Martha Hannah Evans, Cribyn; David James, Llwyn; Edgar Evans, Capelybryn; Elizabeth Jones,

Capelygroes ; Sarah Mary Jones, Capelygroes ; Margaret Ann Thomas, Capelygroes ; *Lizzie Davies, Caeronen, *Hannah Mary Evans, Capelygroes, *Rachel Elina Griffiths, Caeronen ; *Mary Ann Davies, Caeronen, *John Herbert Richards, Capelygroes ; Rachel Ellen Thomas, Capelyfadfa ; David Jones, Brondeifi ; *Sarah Jane Davies, Brondeifi, *Daniel Jones, Alltyplaca, *Essie Price, Alltyplaca ; Howell Thomas, Capelygroes ; Evan Jones Thomas, Capelyfadfa ; Edwin Brown, Capelyfadfa ; Willie Brown, Capelyfadfa.

* a ddynoda fod yr enwau rhwng pob (;) yn gydradd.

ADRODDIAD YR ARHOLWR.—"Y mae'r gwaith yn dda ar y cyfan. Y mae tua 45 y cant wedi gwneud yn ardderchog, a thua 35 y cant yn foddhaol. Gwneir Safon II. i fyny o blant gobeithiol iawn, er nad ydynt ar y cyfan lawn cystal ag ymgeiswyr y flwyddyn ddiweddaf yn yr un Safon Y mae Safon III ar y cyfan lawn cystal a llynedd, er fod y safon yn un uchel ; y mae rhai o'r ymgeiswyr wedi gwneud gwaith rhagorol iawn."

NODYN.— Am reswm neilltuol, gwrthododd yr Arholwr (y Parch. H. H. C. Jones) benderfynu pwy oedd deilwng o'r *medal* yn Safon III. Felly, danfonwyd y papurau i Mr. Cledlyn Davies, a dyfarnodd yntau y *medal* fel y gwelir yn y rhestr uchod.

PRIODASAU.

DYDD Iau, Mawrth 6, yn y Swyddfa, Abertawe, o flaen y Cofrestrydd, priodwyd Mr. Richard D. Thomas, a Miss Ethel Bevan, Trebanos.

DYDD Mercher, Mawrth 19, yn y Swyddfa ym Mhontardawe, o flaen y Cofrestrydd, Mr N. L. Davies, priodwyd Mr. Marles Morgan, Trebanos, a Miss Annie Morgan, Penllwynteg, Cilybebyll.

MARWGOFION.

MAWRTH 3, yn 76 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Harris, 1 Dawkins Place, Trecynon. Bu yn ffyddlon yn yr Hen Dy Cwrdd am flynyddoedd, a theimlai ddiddordeb yn yr achos bob amser. Claddwyd y dydd Gwener, Mawrth 7fed, yn y Gladdfa Gyhoeddus. Gwasanaethwyd gan y Parch E. R. Dennis. Estynwn i'r mab a'i deulu ein cydymdeimlad dwysaf.

MAWRTH 6ed, yn 17 mis oed, Jennie, geneth fach David a Margaret A. Jones, Gellinudd, ger Pontardawe. Claddwyd yn Alltwen, Llun, y 10fed. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, a chawd gair yn y capel a gweddi ar lan y bedd gan y Parchn. H. S. Williams, Pontardawe, a D. Jenkins (Urbanus), Rhos. Caled i riaint ieuainc oedd derbyn y newydd blin am ymadawiad cynnar Jennie,—nid annisgwyliadwy fu hyn hefyd ; canys yr oedd y rhagolygon, ysywaeth, yn peri iddynt dremio yn awr ac eilwaith i gyfeiriad y Llan, am mai tra gwanaidd y bu iechyd yr un fach y rhan fwyaf o'i bywyd. Ond erys ystorfa o gysuron iddynt yn y ffaith y gwnaethant bobpeth a allesid i gadw'r blodyn ar y ganghen.

MAWRTH 12fed, yn 32 mlwydd oed, bu farw Mary Llewelyn, anwyl briod Mr. T. J. Bridgman, Bella Vista, West Cross, Mumbles, ac wyres i'r diweddar Jenkin a Margaret Llewelyn, Pantyscawen, Aberdar. Yr oedd yn un anwyl gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar, yn neillduol fel adroddes bioffesedig yn Eglwys Undodaidd Abertawe. Llanwai ei lle pa le bynnag y byddai. Merch oedd i'r diweddar Mary a Morgan Morgan, Heolyfelin. Bu ei mam farw ar enedigaeth gwrthrych y llinellau hyn. Claddwyd yr hyn oedd farwol ar y 14eg yn mynwent Oystermouth. Y Parchn. R. J. Hall, M.A., ei gweinidog, a D. G. Rees, Trebanos, wasanaethodd yn y ty ac ar lan y bedd. Gadawodd briod mewn galar dwys, ac hefyd berthynasau agos, heblaw cyfeillion lawer. Duw fyddo yn gysur i'r priod unig, y perthynasau, a'i chyfeillion.

Father, hold her in thine Arms,
And let her henceforth be
A Messenger of Love between
Our human hearts and Thee.

MAWRTH 14, yn 47 mlwydd oed, Daniel Thomas, 34, Margaret St., Trecynon. Mab oedd i Mrs. Davies, un o aelodau henaf yr Hen Dy Cwrdd. Nid oedd ei iechyd o'r fath oreu, ond ni thybiodd neb fod y diwedd mor agos. Nos Iau, Mawrth 13, aeth i orphwys fel arfer, heb fod yn achwyn dim, ond boreu dydd Gwener cafwyd ef yn ei wely wedi marw. Blin iawn oedd y newydd hwn i'r cymydogion, oherwydd perchid ef gan bawb a'i hadwaenai, gan ei fod mor ddirodres a thawel. Claddwyd dydd Llun, Mawrth 17, a gwelwyd arwyddion o'r parch tuag ato yn y nifer luosog a ddaeth i'w angladd, yn y fynwent gyhoeddus. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r fam yn ei hiraeth a'i thrallod. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis, a chymerodd Ficer Hughes wasanaeth y "Buffs."

MERCHER, Mawrth 19eg, yn 67 oed, John John, Cefneithrim, ger Clydach. Ysigwyd llawer mynwes pan ledwyd y newydd alaethus am farwolaeth yr uchod. Ymafaelodd y *pneumonia* ynddo beth amser yn ol, a nychodd ddyddiau lawer, a bu'n frwydr drom iddo ; ond cafodd droad ar y dolur, a pharhaodd i wella am ychydig, ond yr oedd y gwaethaf ddim wedi ei ddatguddio,—adlithrodd ac ail-syrthiodd i afaelion y dolur tost a digariad, a methodd ymryddhau, nes i angau ymddangos yn frenin. Llafuriodd yn ddiwyd ar ei dyddyn gyfnod maith. Galwodd cylchodd ereill am ei wasanaeth, a thalodd y sylw gore allodd iddynt. Un o ffyddloniaid yr achos yng Ngellionen fu efe ar hyd ei oes, a'r eglwys yno oedd ei gariad crefyddol, a daliodd yn fynychwr hynod gyson yn mycin a hindda. Cawd ef yn gyfaill hawddgar, brawd parod, a chwmniwr llawen. Gedy fwy nac un gadair a sedd wag. Trwm a llethol fydd sylweddoli'r gwacter. "Dinas ar fryn ni ellir ei chuddio." Ac yr oedd bywyd yr ymadawedig yn un amlwg iawn. Claddwyd ef wrth Gellionen, Llun, Mawrth 24ain. Gweinyddodd y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan y Parch. Ffrwdwen Lewis, Felindre. Hawddgarwch cariad Duw erys yn hir yn

mywydau y plant a'r weddw adawyd yn yr anial i ddwyn y golled a'i hiraeth o golli tad, cydmar, a phenteulu, oedd yn wastad yn barod i wneud ei oreu drostynt.

MAWRTH 27, yn 69 oed, David Davies, Disgwylfa, Trebanos. Chwiliais lawer am esboniad ar broblemau bywyd; wrth fy hunan yn amddifad ydwyf, a mwy dryslyd. Tybed y treuliodd neb fywyd a gyrfa yn fwy diwyd na'r uchod? Nemor awr wag aeth heibio iddo heb iddo lanw i'r ymyl bob un. Llanwodd lu o swyddi, a chafodd air da gan anrhydedd bob tro. Yr oedd ei aidd, ei allu, a'i gymhwyster at y llenyddol yn gryf. Ysgrifennodd lawer tamaid blasus. Cadwodd yr awen gwmni cynnes iddo, a lluniodd benillion pert. Ym myd y gerdd mor gartrefol a llawen oedd efe. Hoffai fyn'd i gâd llên, cerdd, ac unawd. Canodd ganeuon ac unawdau rif y gwlith. Nid yn un cymaint, er hynny, yw pelydr pob seren. Yn y cylch crefyddol, dybiwn, y blodeuodd efe geinaf; a gwyn y cwm a'r wlad am y rhamant byw oedd amlyced yn yr oll o'i ymwneud. Ac am a wyddom, nad crefydd, o bob peth yn y byd, oedd yr eilun agosaf at ei galon. Aberthodd yn ddiarbed, i ormodedd ar brydiau, dros yr achos a garodd gymaint. A bydd i gynnyrch ei fywyd gyda chrefydd i aros yn hir ar gof a chadw yng nghynulleidfa y saint. Hebryngwyd ef y 31ain i gladdfa Gellionen. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. D. G. Rees, a gweddiwyd yn y capel gan y Parch. D. Johns, Gosen, Trebanos. Eiddunwn y disgyn y gwawl oddi fry i gartrefi a llwybrau y weddw a'r plant; ac y bydd i rinweddau yr hwn sydd ond wedi blaenu i fod yn gyfnerth i bob un ohonynt i benderfynu parhau yn y gwaith da a wnaeth efe, ac a'i dygodd i gymaint o sylw a chyhoeddusrwydd.

MAWRTH 29, John Jones, Tynant, Capel Dewi, Llandyssul, gynt o Bantygwndwn, ger Bwlchyfadfa, wedi hyny o Tanrhos, ger Cwmnewydd, yn 64 oed. Bregus iawn oedd ei iechyd er's blynyddoedd lawer, ond drwy gymorth meddygon a gofal mawr o'i dy yntau a'i chwaer, cafodd fyw hyd y dydd uchod, pryd y ffarweliodd ar ol wythnosau o gystudd. Ar hyd ei oes bu'n weithiwr caled a threfnus. Yn wir, pan gofiem mor wael oedd ei iechyd, synem fod y fath drefn ar y fferm yn Nhanrhos, ond yr oedd trefnu a gweithio wrth drefn yn rhan o'i fywyd. Yr oedd yn un a gymerai bleser yn ei waith. Yr oedd John Jones yn ddyn o feddwl cryf ac annibynol. Darllenai'n helaeth, a chofiai'r hyn a ddarllenai'n fanwl, fel mae pleser oedd cael ymgom ag ef. Yr oedd yn nodedig am ei onestrwydd a'i ddiniweidrwydd. Fel y dywedodd un a'i hadwaenai'n dda wrthym, "Yr oedd mor ddiniwed a'r baban." Gadawodd mewn galar ddwy chwaer, brawd, a llawer o berthynasau eraill. Yr oedd ei angladd y Mercher canlynol yn un lluosog iawn. Claddwyd yn medd ei fam yn hen fynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, B. Pugh (W.), a T. A. Thomas.

EBRILL 9fed, yn 64 oed, bu farw David Thomas, Talgrwnmawr, plwyf Llanwnen. Er nad oedd ei iechyd yn foddhaol er's cryn amser, daeth y diwedd yn dra dirybudd a disymwth. Yr oedd wrth ei orchwylion y dydd blaenorol, ond cyn y bore bu farw. Gadawodd ar ei ol briod a phedwar o blant, ynghyd a dau frawd. Cydymdeimlir â'r teulu yn y Talgrwn yn eu colled a'u galar. Yr oedd yn dra adnabyddus i gylch eang o wlad fel un deheuig iawn ynglyn âg anhwylderau anifeiliaid. Gofynid am ei wasanaeth yn aml, ac yr oedd yntau bob amser, y nos fel y dydd, yn barod i roi ei wasanaeth. Ar gyfrif hyn, gwelir ei eisiau yn fawr yn y gymydogaeth. Hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yn Llanwenog y Sadwrn canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog iawn ynghyd fel arwydd o'u parch iddo. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. D.

Evans, Capelygroes, lle'r oedd yn aelod ynghyd a'i deulu ; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. E. O. Jenkins ac L. Williams.

EBRILL 11, Thomas Thomas, Penpistyll, Pantcoch, Talgarreg, yn 79 oed. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth, ac yn y blynyddoedd a fu gwelid ef yn llawer o ffeiriau y cylch yn gwerthu gwlanneni, &c. Daeth drwy hyny yn adnabyddus i gylch eang. Ystyrid ef yn ddyn gonest a didwyll drwyddo—gonest ei air, a gonest yn ei holl ymwneyd ac ereill. Yr oedd wedi ei adael yn weddw ac unig er's blynyddoedd lawer, ond llwyddodd bron hyd y diwedd i gadw ei dŷ a'i ardd yn lân a threfnus. Yr oedd yn ddarllenwr helaeth ac yn un a garai ffurfio ei farn ei hun ar bob pwynt. Yr oedd cael ymgom gydag ef ar faterion gwleidyddol a llawer i fater arall yn amheuthyn. Claddwyd y Mercher dilynol yn medd ei ddiweddar briod yn mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan Mr. T. G. Thomas, Ffactri, Crugyreryr. Gadawodd frawd, neient, a llawer ereill i wylo ei golli.

EBRILL 13, yn 42 oed, bu farw William Williams, annwyl fab Evan Williams a'r diweddar Elizabeth Williams, Brynderw, Llanwnen, ar ol cystudd cymharol fyr. Ariannydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Tua chwe-mlynedd-ar-hugain yn ol, cafodd dderbyniad i'r *London and Provincial Bank* (*Barclay's Bank* yn awr) yn Llanfair ym Muallt. Ar ol bod yno am rai blynyddoedd, bu'n gwasanaethu mewn amryw fannau ; ac ychydig flynyddoedd yn ol penodwyd ef yn brif-oruchwyliwr ar gangen newydd yn y Wyddgrug. Ymdaflodd yntau i'r gwaith o wneud y gangen newydd yn llwyddiant gyda'r fath ynni, fel y daeth, cyn ei farwolaeth, yn un o ganghennau pwysig y banc yn y gogledd. Meddai'r *tact* naturiol angenrheidiol i wneud dyn o fusnes lwyddiannus, a'r dyfalbarhad a'r amynedd angenrheidiol i orchfygu anhawsterau, a dod yn feistr yn ei alwedigaeth. Iddo lwyddo yn ei amcan a wneir yn amlwg gan ei benodiad i swydd o gyfrifoldeb mor fawr mor ieuanc, yn ogystal a chan y ffaith ei fod wedi llwyddo i basio arholiad uchelaf yr *Institute of Bankers*. Ni fu gan y banc swyddog mwy ffyddlon, a dian pe cai fywyd hirach y dyrchefid ef i safleoedd pwysicach eto. Bu ei rodiad i gyd yn lân : ni ellir un cymmoliaeth uchelach. Siomedigaeth fawr i'w dad oedrannus, a'i frodyr (un o'r rhai sydd yng ngwasanaeth yr un Banc yn Aberdar), a'i chwiorydd, yw ei golli fel hyn ym mlodau ei ddyddiau. Caffent nerth i ymgysuro. Claddwyd ei weddillion, y dydd Gwener canlynol, ym mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

MANION AC HANESION.

CYMDEITHAS YR YSGOL SUL.—Dymunaf apelio at yr Ysgolion Sul i wneud y casgliad arferol cyn diwedd mis Mai. Danfoner y casgliadau at y Trysorydd—Mr. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd.

CRIBYN.—Prydnawn dydd Mawrth, yr 22ain o Ebrill, cawd Tê Parti llwyddiannus iawn. Rhoddwyd y tê gan rai o foneddigesau caredig o'r gymmuneidfa. Daeth nifer lluosog ynghyd i gyfranogi o'r danteithion. Yn yr hwyr cawd cyfarfod cystadleuol llwyddiannus iawn.

PANTYDEFAID.—Ebrill 4, cynhaliodd yr eglwys uchod ei Phê Parti blynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mrs Jones, Brynowen. Y mae Mrs. Jones yn un o aelodau henaf a ffyddlonaf yr eglwys, a bu hi a'i diweddar briod yn noddwyr caredig yr achos ar hyd y blynyddoedd, ac yr oedd y wledd ragorol hon yn arwydd ychwanegol nad yw ei ffyddlondeb a'i charedigrwydd yn pallu fel yr â y blynyddoedd heibio. Cynnorthwywyd hi wrth y byrddau, gyda'r melusion a'r aur-afalau gan aelodau yr eglwys. Yn yr hwyr o dan lywyddiaeth Mr. J. Penry Lewis, Brynowen, cafwyd Cwrdd Adloniadol a Chystadleuol llwyddianus. Rhanwyd gwobrwyon i'r plant am ffyddlondeb yn yr Ysgol Sul. Ar ol talu'r diolchiadau arferol, terfynwyd cwrdd diddorol drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau," Miss Evans, Argoed, yn canu yr alaw. Melys, moes eto —— Cynhelir Nodachfa (Bazaar) yn y lle uchod er dileu y ddyled ar y Neuadd, dydd Mercher, Mehefin 11, pryd yr agorir y gweithrediadau gan Rhys Hopkin Morris, Ysw., A.S. Byddis yn ddiolchgar am bob cynhorthwy.

TRECYNON.—Nos Fercher a nos Iau, Mawrth 5–6, yn Neuadd Gyhoeddus, Trecynon, rhoddwyd perfformiad o'r Operetta, "Flowerland" (Clementine Ward), gan Obeithlu yr Hen-Dy-Cwrdd. Yr arweinydd oedd Mr John Thomas, a'r cyfeilydd, Mr. W. J. Jones, a chynorthwywyd hwynt gan y Trecynon Syncopated Orchestra dan arweiniyddiaeth Mr. T. W. Griffiths. Mae Mr. Thomas i'w longyfarch ar lwyddiant ei waith, a'r safon uchel a gyrhaeddwyd ganddo. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r perfformiad gan bawb a fu yno. Mae y chwiorydd, o dan arolygiaeth Mrs. Taliesin Griffiths, Miss Olwen Jones, a Mrs. D. R. Davies, i'w canmol hefyd ar eu gwaith gyda gwisgoedd y plant a'r blodau. Bu Mrs. Edgar Williams a Mrs. E. R. Dennis yn ddyfal wrthi yn gwerthu tocynnau fel y sicrheir y rhan arianol yn ogystal a'r gerddorol. Miss Edith Howells fu'n arolygu'r dawnsio, a bu'r gwaith o'r nodwedd uchaf. Mrs. Llewelyn, Bwllfa, oedd i lywyddu nos Fercher, ond fe'i lluddiwyd gan afiechyd; a Mr. T. Botting, B.A., B.Sc., nos Iau. Mae llwyddiant y gwaith i'w weled yn nifer y ceisiadau i gael "Repeat Performance," a chafwyd hwnnw nos Sadwrn, Mawrth 29, a bu yn llwyddiannus iawn. Mae'r Gobeithlu, a phob un oedd yn gysylltiedig a'r gwaith i'w canmol yn fawr ar eu gwaith rhagorol.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cyfarfodydd yr Hud-lusern yn y Graig, ar hanes Paul a hanes Iesu Grist, gyda sylwadau ar bob darlun—nosau Llun, Chwef. 18fed a'r 25ain, a Mawrth 3ydd. Y Parch. D. G. Rees yn eglurwr.——Yn Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, dan nawdd yr achos, a phwyllgor yr Organ, cafwyd dau berfformiad o'r ddwy ddramod—"Aeres Maesyfelin," a "Ffynonbedr," nosau Mawrth 13eg a'r 15fed, gan gwmni Dramadol Gwauncaegurwen. Daeth cynulliadau da ynghyd, ar y cyfan, ac ystyried yr afiechyd enbyd y sydd ymhob cylch. Cawd actio da yn yr oll o'r ddwy ddrama. Dygwyd allan yr oll o'r trefniadau gan Mr. J. J. Williams.——Yn y Graig, nos Sadwrn, Mawrth 22ain, er budd a than nawdd cronfa pwyllgor y Bel droed, Trebanos. Rhoddodd William Jenkins, Ysw., A.S., dros ranbarth Castellnedd, ddarlith ar "Trem i Dy'r Cyffredin." Darlith flasus a'i llonaid o bethau diddorol.

Y GYMANFA GERDDOROL.—Cynhelir Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion eleni yng Nghapel y Tabernacl, Ceinewydd, dydd Mercher, Mehefin 4. Dymunir ar i Arweinyddion y Gân yn y gwahanol Eglwysi anfon i'r Ysgrifennydd nifer y Tocynnau anghenrheidiol ar gyfer y cantorion, fel trwydded iddynt i'r galeri. Hysbysir hefyd y darperir cyflawnder o luniaeth, am bris rhesymol, ar gyfer pawb.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —